

**Arolygiad Practis
Deintyddol Cyffredinol (lle
rhoddwyd rhybudd)
Bwrdd Iechyd Aneurin
Bevan.
Deintyddfa Brynbuga**

2 Chwefror 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1. 1.....	Cyflwyniad
.....	2
2. 2.....	Cyd-destun
.....	3
3. 3.....	Crynodeb
.....	4
4. 4.....	Canfyddiadau
.....	5
Ansawdd Profiad y Claf	5
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	8
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	13
5. 5.....	Camau Nesaf
.....	14
6. 6.....	Methodoleg
.....	15
Atodiad A.....	17

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Cwblhaodd AGIC arolygiad yn Neintyddfa Brynbuga, 4 Priory Street, Brynbuga, Sir Fynwy, NP15 1BJ ar 2 Chwefror 2016.

Archwiliodd AGIC sut roedd Deintyddfa Brynbuga yn bodloni'r safonau gofal a nodwyd yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) ac mewn deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd am arolygiadau deintyddol ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad gyda chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr i sicrhau fod barn cleifion wrth wraidd ein dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau mae'r gwasanaethau yn cyflenwi gofal diogel, effeithiol a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar y person.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'n arwain at ddarparu gofal effeithiol a diogel. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad yn erbyn y safonau a'r canllawiau perthnasol.

Ceir mwy o fanylion am ein methodoleg yn Adran 6 o'r adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Deintyddfa Brynbuga yn cynnig gwasanaethau i gleifion yn ardal Brynbuga yn Sir Fynwy. Mae'r ddeintyddfa yn rhan o wasanaethau a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

Mae Deintyddfa Brynbuga yn ddeintyddfa gymysg sy'n cynnig gwasanaethau deintyddol preifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y ddeintyddfa'n cynnwys dau ddeintydd, tair nyrs ddeintyddol, un gweithiwr ar y dderbynfa, ac un hylenydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat gan gynnwys gwasanaethau gofal yn y cartref os oes gofyn.

3. Crynodeb

Gwelsom dystiolaeth oedd yn dangos bod y ddeintyddfa yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w chleifion. Roedd yr adborth a gafwyd drwy holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol. Roedd system ar waith yn y ddeintyddfa er mwyn gofyn am adborth ac adolygu adborth cleifion, ond argymhellir ehangu'r system hon.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth i gefnogi'r casgliad bod cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roeddem yn fodlon gyda'r trefniadau oedd ar waith i ddiogelu cleifion ac aelodau staff rhag heintiau ataliadwy cysylltiedig â gofal iechyd. Roeddem yn fodlon bod offer radiograffeg yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn ddiogel. Argymhellwyd bod y dull o storio a chofnodi cyffuriau ac offer ar gyfer argyfyngau yn cadw at ganllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Edrychom ar gofnodion y cleifion a gweld eu bod yn cynnwys digon o fanylion ar y cyfan, ond argymhellwyd rhai meysydd i'w gwella.

Gwelsom fod gan y ddeintyddfa lwybrau atebolrwydd clir. Roedd un o'r partneriaid yn gwneud y gwaith rheoli arweiniol. Roedd llinellau cyfathrebu da rhwng aelodau staff. Roedd yr aelodau staff a siaradodd gyda ni yn ymroddedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn drefnus.

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y ddeintyddfa'n ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w chleifion i gyd. Roedd pob un o'r cleifion a siaradodd gyda ni ar ddiwrnod yr arolygiad yn dweud bod tîm y ddeintyddfa wedi bod yn barod eu croeso.

Roedd yr adborth a gafwyd drwy holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y ddeintyddfa i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn gofyn eu barn ynglŷn â'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Llenwyd deg holiadur cyn yr arolygiad a phedwar ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

"Hapus iawn gyda'r gwasanaeth."

"Mae'r deintydd a'r aelodau staff yn broffesiynol iawn bob amser ac yn gynorthwyol. Rydw i wedi argymhell y ddeintyddfa hon i lawer o bobl eraill oherwydd y gofal y maent yn ei ddarparu."

Ar ddiwrnod yr arolygiad, dywedodd un claf, "Mae deintydd lleol yn werthfawr iawn mewn tref farchnad fach. Does dim rhaid i bobl hŷn deithio'n bell i gael gofal da."

Gofal gydag urddas

Gwelsom yr aelodau staff yn siarad â'r cleifion mewn modd cyfeillgar, urddasol a phroffesiynol. Roedd yr adborth gan y cleifion a lenwodd yr holiaduron yn gadarnhaol. Dywedodd y cleifion i gyd wrthym eu bod yn fodlon â'r gofal a'r driniaeth yr oeddent yn ei derbyn a'u bod yn cael croeso gan y staff.

Roedd rhestrau o brisiau'r triniaethau wedi eu harddangos. Roedd taflen yn disgrifio'r ddeintyddfa ar gael i gleifion ac roedd gan y ddeintyddfa wefan. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael gwybodaeth berthnasol ar amrywiaeth o ffurfiau.

Roeddem yn sylwi bod drws yr ystafell driniaeth ar y llawr uchaf ar agor drwy gydol triniaethau, a oedd yn golygu bod cleifion eraill yn yr ystafell drws nesaf yn clywed sgysiau rhwng y deintydd a'r claf. Nid oedd unrhyw gleifion yn cwyno am y trefniant hwn ond roeddem yn awgrymu bod y drysau'n cael eu cadw ar gau yn ystod sesiynau er mwyn sicrhau cyfrinachedd.

Gofal amserol

Mae'r ddeintyddfa yn ceisio sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. Dywedwyd wrthym fod system apwyntiadau hyblyg ar waith sy'n caniatáu i gleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw ac apwyntiadau brys. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym nad oeddent wedi gorfod aros cyn gweld y deintyddion. Dywedodd y rhai a oedd wedi gorfod aros nad oeddent wedi gorfod aros yn hir. Disgrifiodd yr aelodau staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion os bydd eu deintydd yn rhedeg yn hwyr neu'n absennol yn annisgwyl ar ddiwrnod eu hapwyntiad.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym eu bod yn gwybod sut i gael gofal deintyddol y tu allan i oriau arferol. Gwelsom arwydd ger mynedfa'r ddeintyddfa gyda manylion a rhif ffôn cyswllt mewn argyfwng er mwyn i gleifion gael gofal deintyddol brys pan fo'r ddeintyddfa ar gau. Cawsom glywed y neges a adawyd ar beiriant ateb y ddeintyddfa gan y gweithiwr ar y dderbynfa. Roedd y neges yn cynnwys gwybodaeth addas.

Aros yn iach

Canfuom dystiolaeth i ddangos bod y ddeintyddfa'n cydnabod bod angen hyrwyddo iechyd er mwyn cefnogi lles eu cleifion. Roedd arddangosfa yn dangos cyfanswm y siwgr mewn diodydd poblogaidd ac amrywiaeth o daflenni a phosteri yn hyrwyddo iechyd geneuol a lles cyffredinol. Roedd teledu'n dangos dulliau gofal geneuol perthnasol.

Roedd holiaduron a sgysiau gyda chleifion yn dangos eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth.

Gofal unigol

Roedd gan y ddeintyddfa bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol, a oedd yn dangos bod y ddeintyddfa yn cydnabod amrywiaeth ei chleifion ac wedi ystyried ei chyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol.

Roedd trefniadau mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a chleifion gydag anawsterau symudedd yn brin. Fodd bynnag, roedd ramp symudol ym mynedfa'r ddeintyddfa ac roedd modd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn gael eu hapwyntiadau yn yr ystafell driniaeth ar y llawr isaf. Dywedodd aelodau staff wrthym eu bod yn gofyn a oes gan y claf broblemau symudedd pan fyddant yn trefnu apwyntiad er mwyn bod yn ymwybodol o anghenion y cleifion ymlaen llaw. Gwelsom fod claf oedd yn defnyddio baglau ar ddiwrnod yr arolygiad yn cael gofal priodol.

Gwelsom dystiolaeth bod gan y ddeintyddfa system er mwyn gofyn barn y cleifion. Cynhaliwyd holiaduron chwarterol a dadansoddwyd y canlyniadau a'u cyhoeddi ar y wefan.

Roedd gan y ddeintyddfa weithdrefnau ysgrifenedig gweladwy i'r cleifion i gyd, cleifion y GIG a chleifion preifat, er mwyn cyflwyno cwynion. Roeddem yn cynghori y dylai'r ddeintyddfa ychwanegu manylion cyswllt AGIC i'r weithdrefn gwynion ar gyfer cleifion preifat er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Roeddem yn argymhell y dylid cofnodi cwynion ysgrifenedig a chwynion llafar, yn ogystal â'r amserlen a chanlyniad y gŵyn. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod pob cwyn yn cael sylw o fewn cyfnod priodol o amser a bod unrhyw dueddiadau'n cael eu canfod a'u datrys yn gyflym.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid ychwanegu manylion cyswllt AGIC i'r weithdrefn gwynion ar gyfer cleifion preifat.

Dylai cwynion ysgrifenedig a llafar gael eu cofnodi mewn llyfr log priodol er mwyn dangos yr amserlenni a chanlyniad y gŵyn.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth i gefnogi'r casgliad bod cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roeddem yn fodlon â'r trefniadau oedd ar waith er mwyn diogelu cleifion ac aelodau staff rhag heintiau ataliadwy cysylltiedig â gofal iechyd. Rhoddwyd rhywfaint o gyngor ar gynllun terfynol yr ystafell ddiheintio newydd arfaethedig. Roeddem yn argymhell y dylai'r dull o storio/cofnodi cyffuriau ac offer ar gyfer argyfyngau fod yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roeddem yn fodlon bod offer radiograffeg yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel ac yn cael ei brofi a'i gadw'n briodol. Edrychwyd ar gofnodion cleientiaid a gweld eu bod yn ddigon manwl yn gyffredinol, ond roeddem yn argymhell rhai meysydd i'w gwella.

Gofal diogel

Cyfleusterau clinigol

Gwelsom dystiolaeth oedd yn dangos bod y ddeintyddfa wedi cymryd camau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles aelodau staff a chleifion. Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy (PAT) wedi eu cynnal er mwyn sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel. Roedd yn amlwg bod y ddeintyddfa'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda. Roedd yn lân ac yn daclus ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg. Roedd golau yn yr adeilad a gwres priodol, ac roedd tŷ bach a chyfleusterau i ymolchi dwylo. Roedd diffoddwyr tân wedi eu gosod yn strategol ac wedi eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ddeintyddfa yn y broses o adnewyddu dau ddiffoddwr carbon deuocsid (CO₂).

Rheoli heintiau

Roeddem yn fodlon gyda'r trefniadau i ddiogelu aelodau staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy cysylltiedig â gofal iechyd yn y ddeintyddfa hon. Mae hyn am inni weld dystiolaeth o gamau effeithiol i atal a rheoli heintiau sy'n seiliedig ar ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM01-05):

- Roedd llyfrau log ar gyfer gwirio offer wedi eu cadw ac roedd archwiliadau o'r gofynion rheoli heintiau wedi eu cynnal yn unol â'r canllawiau presennol.
- Roedd yr offer a ddefnyddiwyd ar gyfer glanhau a sterileiddio'r offerynnau yn amlwg mewn cyflwr da, a phrynwyd awtoclaf (sterileiddiwr) newydd ym mis Awst 2015. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr offer wedi ei brofi i sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn. Roedd dewis eang o offerynnau ar gael ac roeddent wedi eu trefnu a'u dyddio'n briodol er mwyn i'r aelodau

staff wybod bod yr offer yn ddiogel i'w ddefnyddio yn nhriniaethau cleifion.

- Roedd offer diogelwch personol megis menig tafladwy, ffedogau a sbectol ddiogelwch ar gael. Roedd yno sinc benodol ar gyfer ymolchi dwylo.

Gwelsom gofnodion priodol cysylltiedig ag imiwneiddiad Hepatitis B ar gyfer pob aelod o staff clinigol oedd yn gweithio yn y ddeintyddfa, a oedd yn dangos bod y ddeintyddfa'n cymryd camau er mwyn amddiffyn cleifion ac aelodau staff rhag haint.

Ar hyn o bryd, mae gan y ddeintyddfa ystafell ar wahân ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol, ond cawsom ein hysbysu gan bartneriaid y ddeintyddfa eu bod yn y broses o brynu adeilad y ddeintyddfa a'u bod yn bwriadu ymestyn a diweddarau'r ystafell ddadheintio. Trafodwyd cynllun yr ystafell ddadheintio ac roeddem yn argymhell eu bod yn cyfeirio at ganllawiau WHTM 01-05 wrth benderfynu ar gynllun terfynol yr ystafell er mwyn sicrhau bod yr awtoclaf wedi ei osod ar ochr lân yr ystafell gyda digon o arwynebau gwaith gerllaw i bacio offer.

Roedd dogfennaeth gontract ar waith ar gyfer cael gwared â gwastraff cyffredin a gwastraff peryglus. Roedd gwastraff clinigol, gan gynnwys dannedd gydag amalgam a echdynnwyd, yn cael eu cadw a'u gwaredu'n briodol.

Cyffuriau ar gyfer argyfyngau ac offer adfywio

Roedd offer adfywio a rhywfaint o gyffuriau ar gyfer argyfyngau ar gael yn y ddeintyddfa. Fodd bynnag, nid oedd Ventolin (salbutamol) ar gael ac nid oedd y ddyfais sugnedd gludadwy yn gweithio'n iawn. Gofynasom am sicrwydd ynglŷn â'r mater hwn yn y fan a'r lle ac argymhell bod y cyflenwad llawn o gyffuriau yn cael eu storio, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (y DU), a bod yr offer yn cael ei brofi bob dydd er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn. Ychydig iawn o fanylion a gofnodwyd yn y llyfrau log am gyffuriau ar gyfer argyfyngau.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod aelodau staff wedi cael hyfforddiant ar sut i drin argyfyngau meddygol a sut i berfformio dadebru cardio-anadlol (CPR). Roedd yr aelodau staff a gafodd gyfweiliad yn ymwybodol o'u swyddogaethau yn ystod argyfwng meddygol.

Gan fod y materion hyn yn rhai a allai fod yn ddifrifol i ddiogelwch cleifion mewn argyfwng, cyflwynwyd llythyr sicrwydd ar unwaith i'r ddeintyddfa ar ôl yr arolygiad yn unol â phrosesau AGIC. Roedd ymateb y ddeintyddfa i'r llythyr hwn yn rhoi digon o sicrwydd i ni fod y gwelliannau a nodwyd wedi cael sylw.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid sicrhau cyflenwad o bob cyffur ar gyfer argyfwng.

Dylid profi'r offer ar gyfer argyfwng yn rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn gweithio'n iawn.

Dylid cadw llyfrau log manwl o'r profion a gynhelir ar gyffuriau ac offer ar gyfer argyfwng.

Diogelu

Gwelsom fod y ddeintyddfa wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Gwelsom bolisi diogelu ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd pob aelod o staff clinigol wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd gwiriadau cyn cyflogi ar waith o bob gweithiwr ac roedd y ddau ddeintydd wedi cael gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Offer radiograffeg

- Cawsom ein sicrhau bod yr offer a'r broses ar gyfer gwneud radiograffau (pelydr-X) yn y ddeintyddfa hon yn ddiogel. Roedd delweddau pelydr-X yn cael eu prosesu'n ddigidol. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd a bod gwaith yn digwydd i'w cynnal a'u cadw er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd cyfarwyddiadau gwaith yn cael eu harddangos er diogelwch aelodau staff a chleifion, ac roedd mannau a reolir wedi eu dynodi'n glir. Yn ogystal, gwelwyd tystiolaeth i gadarnhau bod pob aelod o staff oedd yn gysylltiedig â chynhyrchu radiograffau wedi cwblhau hyfforddiant er mwyn bodloni safonau ar gyfer personél sy'n ymgymryd â'r gweithredoedd hyn. Mae hyn yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Gofal effeithiol

Mae'r cleifion yn elwa o ddeintyddfa sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus ac yn monitro ei gynnydd. Mae'r ddeintyddfa'n defnyddio offeryn hunanwerthuso deintyddiaeth matrices aeddfedrwydd, sy'n caniatáu i'r tîm ganolbwyntio ar y ffordd y maent yn gweithio ac ar ansawdd y gofal a ddarperir. Gwelwyd cofnodion archwilio sicrwydd ansawdd blyneddol ar gyfer pelydr-X. Dywedwyd wrthym fod archwiliadau rheoli ansawdd yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd hyfforddiant ymbelydredd Ïoneiddio wedi ei ddilyn gan yr aelodau staff perthnasol. Roeddem yn cynghori'r ddeintyddfa y dylai gynnal

adolygiadau cymheiriaid blynyddol, a fyddai'n cynorthwyo datblygiad y staff yn ogystal â sicrhau bod y safonau da presennol yn cael eu cynnal.

Edrychwyd yn fanwl ar sampl bychan o gofnodion cleifion ar gyfer y ddau ddeintydd yn y ddeintyddfa a gwelsom fod y cofnodion a gadwyd o safon dda yn gyffredinol, ond gwelsom rai meysydd i'w gwella:

- Nid oedd hanes cymdeithasol y cleifion, gan gynnwys ysmegu, alcohol a yfir, a hylendid geneuol yn cael ei gofnodi'n gyson.
- Nid oedd hanes meddygol cyfredol yn un o bob tri chofnod yr edrychwyd arno.
- Mewn un cofnod, nid oedd yn glir a oedd y tâl cywir wedi ei godi ar glaf oedd yn derbyn gwasanaeth y GIG am apwyntiad gyda'r hylenydd. Trafodwyd hyn gyda'r deintyddion yn ystod yr arolygiad a dangoswyd taflen inni sy'n cael ei rhoi i'r cleifion i egluro polisi'r ddeintyddfa ynglŷn â chodi tâl er mwyn gweld yr hylenydd. Awgrymwn y dylai caniatâd dilyn, deallus gael ei roi bob amser a'i gofnodi yn y nodiadau, yn enwedig wrth gyfuno triniaeth y GIG a thriniaeth breifat yn yr un cwrs. Dylai gynnwys y daflen wybodaeth a roddwyd a'r fersiwn gael eu cofnodi hefyd.
- Gwelsom un cofnod lle nad oedd cynllun triniaeth ar gael. Mae cynlluniau triniaeth yn hanfodol ar gyfer pob cwrs o driniaeth.
- Nid oedd radiograffau'n cael eu cymryd bob amser cyn darparu triniaeth. Argymhellwyd i'r deintydd y dylid ystyried pa mor aml y cymryd radiograffau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i ddeintyddion yn y ddeintyddfa sicrhau bod y canlynol yn cael eu cofnodi yn nodiadau cleifion unigol:

- ***Hanes cymdeithasol gan gynnwys ysmegu a faint o alcohol y mae'r claf yn ei yfed***
- ***Hanes meddygol cyfredol***
- ***Atgyfeiriad at yr hylenydd lle bo angen, a'r presgripsiwn hylendid unigol***
- ***Dylai bob claf gael cynllun triniaeth manwl, sydd wedi ei arwyddo gan y claf er mwyn sicrhau caniatâd***

- *Dylai'r ddeintyddfa gynnal archwiliad o'r cofnodion deintyddol er mwyn sicrhau bod cofnodion y cleifion i gyd yn gyflawn*

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwelsom fod gan y ddeintyddfa lwybrau atebolrwydd clir. Roedd un o'r partneriaid yn gwneud y gwaith rheoli arweiniol. Roedd llinellau cyfathrebu da rhwng aelodau staff. Roedd yr aelodau staff a siaradodd gyda ni yn ymroddedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn drefnus.

Un o bartneriaid y ddeintyddfa sy'n gyfrifol am reoli'r ddeintyddfa o ddydd i ddydd. Mae gan y ddeintyddfa dîm bychan o staff a oedd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Roeddent yn cyfathrebu'n dda o fewn y tîm ac yn dangos ymroddiad i ofalu am y cleifion. Gwelsom dîm o staff a oedd yn hapus a chymwys wrth ymgymryd â'u swyddi.

Gwelsom gofnodion hyfforddi i ddangos bod modd i aelodau staff ddilyn hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swydd ac i'w datblygiad proffesiynol parhaus.

Roedd yr aelodau staff yn y ddeintyddfa'n cyfathrebu'n dda. Dywedwyd wrthym yn ystod y cyfweiliadau gyda'r staff bod cyfarfodydd yn anffurfiol yn hytrach nag yn ffurfiol, sy'n briodol i ddeintyddfa fach. Dywedodd pob aelod o staff a siaradodd gyda ni eu bod yn teimlo bod modd iddynt drafod pryderon ac anghenion hyfforddi gyda'r partneriaid yn y ddeintyddfa. Ni chynhaliwyd arfarniadau ffurfiol gydag unrhyw aelodau o'r staff.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai pob aelod o staff gael arfarniadau rheolaidd fel ffordd o adnabod anghenion datblygu a hyfforddi.

Cadarnhawyd fod pob aelod perthnasol o staff wedi cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru), roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi cofrestru ag AGIC ac roedd eu tystysgrifau cofrestru wedi eu harddangos yn y ddeintyddfa. Roedd yswiriant indemniad priodol yn cael ei arddangos.

Gwelsom systemau ar waith yn y ddeintyddfa i sicrhau bod pob aelod newydd o staff yn dilyn proses sefydlu briodol, er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau'r ddeintyddfa. Gwelsom y polisïau a'r gweithdrefnau yn y ddeintyddfa a thystiolaeth eu bod wedi eu hadolygu'n rheolaidd a'u bod wedi eu trefnu'n briodol. Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth hefyd yn cael ei storio'n electronig er mwyn i unrhyw ddiweddariadau i bolisïau a gweithdrefnau gael eu rheoli a'u rhannu'n rhwydd.

5. Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r ddeintyddfa gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i roi sylw i brif ganfyddiadau'r arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pa bryd ac ym mha ffordd y bydd yr hyn a ganfuwyd yn Neintyddfa Brynbuga yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y ddeintyddfa i ymateb i'r materion a nodwyd fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac yn amserol. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi digon o sicrwydd i AGIC ynghylch y materion hynny.


Pan fo camau yng nghynllun gwella'r ddeintyddfa yn dal i fod angen eu cyflawni a/neu ar y gweill, dylai'r ddeintyddfa roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fo'r camau wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth wraidd dull AGIC o weithredu arolygiadau mewn ysbytai yn GIG Cymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae'r gwasanaeth yn darparu gofal diogel, dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y person. Mae'r safonau yn allweddol i'r dyfarniadau a wnawn ynghylch ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal



Bydd unrhyw ddeintydd sydd yn gweithio yn y ddeintyddfa sydd wedi cofrestru gydag AGIC i gynnig deintyddiaeth breifat yn destun i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008¹ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygiad) 2011.² Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r ddeintyddfa yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

¹ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

² <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennaeth a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion deintyddol
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r ddeintyddfa
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y ddeintyddfa a'r wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiad yn cael eu hysbysu i'r ddeintyddfa a'r bwrdd iechyd drwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wnaed, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae archwiliadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar ddefnyddio safonau yn y ddeintyddfa ar ddiwrnod yr ymweliad.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Deintyddfa Brynbuga

Dyddiad yr arolygiad: 02/02/2016

Rhif Tudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Ddeintyddfa	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
7	Dylid ychwanegu manylion cyswllt AGIC i'r weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion preifat. Dylid cofnodi cwynion ysgrifenedig a llafar mewn llyfr log priodol er mwyn dangos amserlenni a chanlyniad y gŵyn.	Safonau lechyd a Gofal, 6.3 Safon 5.1 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (CDC)	Mae'r polisi cwynion wedi ei ddiweddarau i gynnwys manylion cyswllt AGIC. Mae llyfr log o gwynion ysgrifenedig a llafar yn dangos amserlenni a chanlyniadau'r gŵyn wedi ei roi ar waith. Mae llyfr log y cwynion llafar yn cofnodi'r gŵyn, y canlyniad, a'r camau a gymerwyd i wella'r gwasanaeth o ganlyniad. Mae llyfr log o gwynion ysgrifenedig yn cofnodi'r gŵyn, cydnabyddiaeth o fewn dau ddiwrnod gwaith, adroddiad ysgrifenedig o fewn 4 wythnos,	SG	Cwblhawyd

Rhif Tudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Ddeintyddfa	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			canlyniad, a chamau a gymerwyd i wella'r gwasanaethau o ganlyniad.		
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
9	Dylid cadw cyflenwad o bob cyffur a argymhellir ar gyfer argyfyngau. Dylai offer ar gyfer argyfyngau gael ei wirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn. Dylid cadw llyfrau log manwl o'r gwiriadau a gynhaliwyd ar y cyffuriau a'r offer ar gyfer argyfyngau.	Safon lechyd a Gofal 2.6 2.9 Safonau CDC 11.5.3	Mae'r pwmp sugno cludadwy ar gyfer argyfyngau wedi ei drydanu'n barhaus a'i blwgio i soced y prif gyflenwad. Mae wedi ei leoli yn y dderbynfa o dan y diffibriliwr a gellir ei asesu'n rheolaidd. Gellir ei ddefnyddio i ategu'r dyfeisiadau llaw sydd gennym. Mae'r pwmp salbwrtamol wedi ei gynnwys yn y blwch argyfwng. Mae taflenni gwybodaeth argyfwng wedi eu hargraffu a'u lamineiddio ar gyfer pob argyfwng a'u rhannu i bocedi plastig gyda'r cyffuriau cysylltiedig. Caiff y cyffuriau sydd yn y bagiau eu monitro gyda thaflen gynnwys, yn rhestru'r meddyginiaethau yn y bag a'u dyddiadau terfyn. Gwiriadau wythnosol o lyfr log y blwch argyfwng	SG	Cwblhawyd

Rhif Tudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Ddeintyddfa	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
11	Rhaid i ddeintyddion y ddeintyddfa sicrhau bod y canlynol wedi eu cofnodi yn nodiadau cleifion unigol: - Hanes cymdeithasol gan gynnwys ysmygu a faint o alcohol y mae'r claf yn ei yfed - Hanes meddygol cyfredol - Atgyfeiriad at yr hylenydd lle bo angen, a'r presgripsiwn hylendid unigol - Dylai bob claf gael cynllun triniaeth manwl, sydd wedi ei arwyddo gan y claf er mwyn sicrhau caniatâd - Dylai'r ddeintyddfa gynnal archwiliad o'r cofnodion deintyddol er mwyn sicrhau bod cofnodion y cleifion i gyd yn gyflawn	Safonau Iechyd a Gofal 4.2, 5.1. Safonau'r CDC 2.2.1, 2.3.6, 2.3.7, 2.3.8, 4.1, 4.1.1, 4.1.2	Rhoddir taflenni i gynorthwyo'r cleifion i roi caniatâd i gael corunau, dannedd gosod, pontydd, tynnu dannedd, triniaethau sianel y gwreiddyn, hypnosis, gwynnu'r dannedd, a chynghor ar hypoplasia. Mae'r cynnwys wedi ei ysgrifennu'n bersonol gan Miles Gladson. Mae'r taflenni'n rhoi amlinelliad o'r driniaeth arfaethedig gan gynnwys yr anfanteision, y risgiau a'r dewisiadau amgen. Cedwir cofnod o union daflenni a roddir i'r claf yn nodiadau'r cleifion ar y cyfrifiadur. Mae'r claf yn mynd â'r daflen adref ar ôl yr archwiliad, gan roi amser i'r claf ystyried y driniaeth arfaethedig ac unrhyw gwestiynau a allai godi. Rydym hefyd yn defnyddio clipiau fideo ar gyfer rhai triniaethau ac yn siarad am y driniaeth – cofnodir hyn yn y nodiadau hefyd. Os tybir bod yr achos yn gymhleth neu os oes sawl pwynt i'w ystyried, gall y deintydd ysgrifennu at y claf er mwyn cynorthwyo'r broses o benderfynu.	SG	Cwblhawyd/ parhaus

Rhif Tudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Ddeintyddfa	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			Caiff hyn ei gofnodi yn ffeil y claf hefyd. Rydym hefyd yn darparu taflenni ar ymweliadau hylenydd cyn yr apwyntiad. Mae'r daflen yn egluro polisi'r ddeintyddfa o ran prisiau'r GIG a phrisiau preifat am driniaethau gyda'r hylenydd. Fel y cynghorir, byddwn yn sicrhau bod presgripsiwn ysgrifenedig yn cael ei gynnwys o fewn cynllun y driniaeth, ond mae darparu 'mynediad uniongyrchol' at hylenydd i gleifion yn golygu y bydd angen i'r hylenydd rannu rhywfaint o'r gwaith hwn hefyd. O ddechrau mis Ionawr 2016, caiff ffurflenni FP17DC eu harwyddo'n electronig. Caiff y claf argraffiad o'r cynllun triniaeth ac amcangyfrif o'r pris – caiff hwn wedyn ei lofnodi ar y pad electronig yn y ddeintyddfa. Ar ôl yr adborth, rydym wedi trefnu cynnal adolygiad cymheiriaid o		

Rhif Tudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Ddeintyddfa	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			gofnodion deintyddol gyda Deintyddfa Ffordd Aberhonddu, y Fenni, o fewn yr ychydig fisoedd nesaf. Bydd pump o ffeiliau cleifion o bob deintyddfa'n cael eu dadansoddi a'u hadolygu. Bydd camau wedyn yn cael eu cymryd i wella'r ffordd y cedwir cofnodion. Mae offeryn hunanwerthuso Deintyddiaeth Matrics Aeddfedrwyd yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i sicrhau bod hanes meddygol a chyfeiriadau'n gyfredol. Cynhelir archwiliad bob tri mis o ugain o gleifion a ddewisir ar hap dros y mis diwethaf. Mae'r hanes meddygol yn holi am hanes cymdeithasol cleifion, gan gynnwys arferion yfed ac ysmegu. Caiff ei wirio yn y feddygfa gan y deintydd i weld a oes unrhyw newid, yna caiff ei stampio cyn ei ddychwelyd i'r dderbynfa i gael ei sganio i ffeil y claf. Mae hyn bellach wedi ei ddiweddarau		

Rhif Tudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Ddeintyddfa	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			gyda'r archwiliad canlynol o gofnodion cleifion. Ym mis Chwefror, archwiliwyd cofnodion deintyddol ugain o gleifion a ddaeth i gael archwiliad gyda'r ddau ddeintydd. Mae'r canlyniadau'n dangos bod yr hanes meddygol wedi ei ddiweddarau'n briodol. Nid oedd y rhan fwyaf o'r cleifion a archwiliwyd yn ysmegu ac roeddent yn cyfaddef eu bod yn yfed llai o unedau na'r cyfyngiad a argymhellir. Derbyniodd 2 allan o 20 o gleifion gyngor ysmegu gan yr hylenydd a rhybudd ynglŷn â chanser y geg. Ni chafodd 3 allan o'r 20 claf a gyfaddefodd eu bod yn ysmegu unrhyw gyngor ar roi'r gorau iddi na rhybudd ynglŷn â chanser y geg. Dylid diweddarau gwybodaeth achludol yn ystod yr archwiliad os oes angen. Ni lofnodwyd ffurflen FP17DC cyn nac ar ôl triniaeth gan 4 allan o'r 20 claf.		
Ansawdd y Rheolaeth a'r Arweinyddiaeth					

Rhif Tudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau Gweithredu'r Ddeintyddfa	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
12	Dylai pob aelod o staff gael arfarniadau rheolaidd fel ffordd o adnabod anghenion datblygu a hyfforddi.	Safonau lechyd a Gofal 7	Argymhellwyd y dylai'r aelodau staff gael arfarniadau rheolaidd a chynlluniau datblygu personol. Mae aelodau'r tîm wedi cael cyngor ynglŷn â'r cyfarfod arfarnu sydd ar y gweill. Bydd cyngyfarfod yn cael ei drefnu cyn y drafodaeth er mwyn cytuno ar amser cyfleus ac unrhyw faterion arbennig sydd angen sylw. Mae staff yn cael defnyddio gwefan Pro dental CPD. Fe'u hanogir i weithio ar eu cynllun datblygu personol yn ogystal ag ehangu eu datblygiad proffesiynol parhaus o fewn y rhaglen. Os bydd aelod o staff yn teimlo y byddai'n elwa o fynychu cwrs, byddai hyn yn cael ei dderbyn yn gyffredinol.	SG	Staff wedi eu hysbysu. Parhaus

Cynrychiolydd y Ddeintyddfa:

Enw (print): Sarah Gladson

Teitl: Perchennog

Dyddiad: 9/3/16